



Twitter: [@PINSgov](https://twitter.com/PINSgov)

Mae rhagor o wybodaeth amdanom ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:
<https://gov.wales/topics/planning/appeals/?lang=cy>

Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu) (Cymru) 2011

FFURFLEN APÊL TRWYDDEDU MOROL

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn print bras, ar dâp sain, mewn Braille neu mewn iaith arall, cysylltwch â'n llinell gymorth ar 0303 444 5940.

RHYBUDD: Rhaid i'ch apêl gyrraedd yr Arolygiaeth Gynllunio o fewn y terfynau amser statudol ar gyfer gwneud apêl fel y gosodir allan yn y rheoliadau a nodir uchod, sef o fewn chwe mis o ddyddiad penderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru.

YSGRIFENWCH YN GLIR MEWN LLYTHRENNAU BRAS GAN DDEFNYDDIO INC DU

A. APELYDD – Rhaid i enw'r person(au) sy'n gwneud yr apêl ymddangos fel ymgeisydd ar y ffurflen gais. Os na wneir hynny, ni ellir cofrestru'r apêl.

Enw	
Enw Sefydliad (os yn berthnasol)	

B. ASIANT (os oes un) AR GYFER YR APÊL

Enw	
Enw Sefydliad (os yn berthnasol)	
Cyfeirnod	

C. MANYLION CYFOETH NATURIOL CYMRU (CNC)

Cyfeirnod CNC	
Ffurflen gais ddyddiedig	
Dyddiad Hysbysiad Penderfyniad CNC	

CH. CYFEIRIAD ARDAL YR APÊL

Rhowch enw a lleoliad y safle	
Cyfeirnodau Grid	
Cyfanswm arwynebedd y safle (mewn Hectarau)	

	OES*	NAC OES
A oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch yn y safle neu gerllaw y byddai angen i'r Arolygydd eu hystyried wrth ymweld â'r safle? *Os oes, rhowch esboniad yn eich sail dros apelio (adran Dd)		

D. DISGRIFIAD O'R PROSIECT

Rhowch fanylion y prosiect a gynigir y mae arnoch angen trwydded ar ei gyfer. Fel arfer, dylid cymryd hyn o'r ffurflen gais, ond os diwygiwyd y cais tra'r oedd gyda CNC ar gyfer ei ystyried, gallwch roi disgrifiad o'r cynllun diwygiedig. Dylech amgáu copi o gytundeb CNC i'r newid(iadau).

	YDI/ OES*	NAC YDI/ NAC OES
A yw'r ardal yn llunio rhan o Barth Cadwraeth Morol a ddynodir o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009?		
A oes unrhyw rannau o'r gwaith o fewn neu'n debygol o effeithio ar safle		

cadwraeth dynodedig (Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Ramsar)?

***Os ydych yn ticio ydy/oes ar gyfer unrhyw un o'r uchod, rhowch ragor o fanylion yn eich sail dros apelio.**

DD. RHESYMAU DROS YR APÊL

Mae'r apêl hon yn erbyn:

1. Gwrthod rhoi Trwydded Forol

2. Amodau sydd ynghlwm wrth Drwydded Forol

Ticiwch

<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>

E. MANYLION Y DRWYDDED / PROSIECT Y CEISIR

Nodwch y math o drwydded sy'n berthnasol i'r apêl hon:

1. Cais am Drwydded Forol – Gweithgareddau risg isel Band 1

2. Cais am Drwydded Forol – Gwaith Morol

3. Cais am Drwydded Forol - Carthu a Gwaredu

4. Cais am Drwydded Forol – Gwaith Ynni Morol

5. Cais am Drwydded Forol – Mwynau Morol


Ticiwch

<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>
<input type="checkbox"/>

F. SAIL DROS APELIO

Rhowch eich sail dros apelio isod. Dyma eich cyfle i gyflwyno eich achos mewn perthynas â'r rheswm dros yr apêl fel y nodir yn adran Dd. I wneud hyn, mae angen i chi fynd drwy'r rhesymau dros y penderfyniad, ac esbonio pam rydych yn anghytuno. Dylid cynnwys yn eich ffurflen apêl y rhesymau o fewn penderfyniad CNC a'r rhesymau a gyflwynwyd gennych ar adeg gwneud y cais yn unig. Ni ddylech gyflwyno unrhyw resymau newydd dros yr apêl. Os ydych yn apelio yn erbyn amodau sydd ynghlwm wrth drwydded, eglurwch pa amodau rydych yn anghytuno yn eu herbyn a pham. Os ydych yn apelio yn erbyn hyd y drwydded, esboniwch pam rydych yn anghytuno â'r penderfyniad a'r hyn sydd, yn eich barn chi, yn gyfnod priodol o amser ar gyfer y drwydded.

Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen



FF. DEWIS O WEITHDREFN

Noder bod yn rhaid i ni gymryd dewis CNC i ystyriaeth pan fyddwn yn penderfynu sut y bydd yr apêl yn mynd yn ei blaen. Darllenwch ein Canllawiau Apelio am ragor o wybodaeth am ein gweithdrefnau.

*Ticiwch **UN** blwch yn unig ✓*

1. Sylwadau Ysgrifenedig

W

Mae'r weithdrefn hon yn ymwneud â chyfnewid datganiadau ysgrifenedig y partïon, ac wedyn ymweliad â safle'r apêl gan yr Arolygydd sy'n gyfrifol dros benderfynu ar yr apêl. Fel arfer, dyma'r ffordd gyflymaf, symlaf a mwyaf costeffeithiol o benderfynu ar apêl.

Rhoddir cyfle i chi a chynrychiolydd ar ran y Rheoleiddiwr fynd gyda'r Arolygydd ar yr ymweliad â'r safle.

2. Gwrandawriad

H

Mae gwrandawriad yn drafodaeth a gynhelir o dan gyfarwyddyd yr Arolygydd. Mae'n galluogi partïon i gyfnewid eu safbwyntiau mewn awyrgylch llai ffurfiol nag ymchwiliad cyhoeddus.

3. Ymchwiliad

I

Dyma'r weithdrefn fwyaf ffurfiol. Er nad yw'n llys barn, yn aml, bydd y trafodion yn ymddangos yn eithaf tebyg gan y bydd gan y partïon i'r apêl gynrychiolaeth gyfreithiol a gelwir ar dystion arbenigol i roi tystiolaeth, fel rheol.

Os ydych eisiau i ni gynnal gwrandawriad neu ymchwiliad, nodwch eich rhesymau isod:

G. DOGFENNAU ATEGOL HANFODOL

RHAID anfon y dogfennau a restrir 1 – 6 isod gyda'ch ffurflen apêl. Os na fyddwn yn derbyn pob un o'ch dogfennau apêl o fewn y cyfnod apelio statudol, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu derbyn yr apêl.

Ticiwch y blychau i ddangos pa ddogfennau a amgeir gennych.

1	Copi o'r ffurflen gais a anfonwyd at CNC	
2	Copi o'r penderfyniad a gyhoeddwyd gan CNC	
3	Unrhyw ohebiaeth berthnasol â CNC	
4	Rhestr (yn datgan rhifau lluniadau) a chopïau o'r holl gynlluniau, lluniadau a dogfennau a anfonwyd at CNC fel rhan o gais. Dylai'r cynlluniau a'r lluniadau ddangos yr holl derfynau a marciau lliw a roddwyd ar y rhai a anfonwyd at CNC.	
5	Cynlluniau, lluniadau neu ddogfennau ychwanegol yn ymwneud â'r cais ond na welwyd yn flaenrol gan CNC. Rhifwch y rhain yn glir a rhowch restr.	
6	Copi o'r Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol a'r penderfyniad caniatáu, os yn berthnasol. Darparwch gopi caled a chopi electronig.	

Manylion Personol

Ni fydd y Manylion Personol ar y dudalen hon ar gael i'r cyhoedd

1. MANYLION PERSONOL YR APELYDD

Cyfeiriad	
Cod Post	
Rhif Ffôn yn ystod y Dydd	
E-bost	

	Cymraeg	Saesneg
Dewis Iaith		

	E-bost	Post
Cysylltwch â mi drwy		

2. MANYLION PERSONOL ASIANT (os oes un)

Cyfeiriad	
Cod Post	
Rhif Ffôn yn ystod y	

Dydd		
E-bost		
	Cymraeg	Saesneg
Dewis Iaith		
	E-bost	Post
Cysylltwch â mi drwy		



Mae casglu a phrosesu dilynol y data personol a roddir gennych yn y ffurflen hon yn unol â thelerau ein cofrestrriad o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Ceir rhagor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data ar ein gwefan o dan "Polisi Preifatrwydd" (http://planninginspectorate.gov.wales/privacy_policy/?lang=cy)

LLOFNODWCH ISOD

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi anfon copi o'r ffurflen apêl hon a'r holl ddogfennau perthnasol at y Rheoleiddiwr (os na fyddwch yn gwneud hyn, fel arfer, ni dderbynnir eich Apêl).

Rwyf yn cadarnhau bod pob adran wedi'i llenwi'n llawn hyd at eithaf fy ngwybodaeth.

Rwyf yn deall y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth a roddir gennyf at ddibenion swyddogol mewn cysylltiad â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) ac y bydd manylion gan gynnwys fy enw, lleoliad y prosiect a'm datganiad achos yn ymddangos yn gyhoeddus. Wrth gyflwyno'r ffurflen hon, rwyf yn cytuno i'r defnydd hwn o'r wybodaeth a roddaf.

Llofnod:

Enw (mewn llythrennau bras)

Dyddiad

Ar ran (os yn berthnasol)

ANFON

1 COPI atom ni yn:

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeilad y Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk

1 COPI at yr Awdurdod Trwyddedu (CNC)

Anfonwch gopi o'r ffurflen apêl at y cyfeiriad o le'r anfonwyd yr hysbysiad penderfyniad (neu'r cyfeiriad a ddangosir ar unrhyw lythyrau a dderbyniwyd gan CNC). Nid oes angen anfon yr holl ddogfennau ategol atynt eto, ond anfonwch unrhyw ddogfennau ategol na anfonwyd yn flaenorol fel rhan o'r cais.

1 COPI i chi ei gadw

PAN FYDDWN YN DERBYN EICH APÊL

Pan fyddwn yn derbyn eich apêl, byddwn yn:

1. Dweud wrthyhych os yw'n ddilys a phwy sy'n ymdrin â'r apêl.
2. Rhoi **dyddiad dechrau** ac **amserlen** i chi ar gyfer yr apêl os yw popeth mewn trefn.
3. Rhoi gwybod i CNC am ddyddiad dechrau'r apêl (os yw'n berthnasol).

Os byddwch yn cyflwyno gwybodaeth neu sylwadau'n hwyr, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu eu hystyried, mae'n bosibl na fydd yr Arolygydd yn eu gweld ac mae'n bosibl y byddant yn cael eu dychwelyd atoch.

Ar ddiwedd y broses apêl, byddwch yn derbyn penderfyniad yr Arolygydd yn ysgrifenedig, a fydd yn cynnwys manylion rhesymu'r Arolygydd.